



Cyflwyniad i Amnest Rhyngwladol **Crynodeb o'r cyflwyniad i siaradwyr**

YNGLŶN Â'R CYFLWYNIAD HWN

Nod

Nod y cyflwyniad hwn yw cyflwyno pobl ifanc i waith sefydliad **anllywodraethol** sy'n ymgychu dros hawliau dynol. Y gobaith yw y bydd cyflwyno pobl ifanc i waith Amnest Rhyngwladol yn eu hannog i **feddwl yn feirniadol** am faterion dadleuol a'u trafod, a chymryd **camau gweithredu** gwybodus a chyfrifol dros **hawliau dynol**.

Crëwyd y cyflwyniad ar gyfer siaradwyr sy'n dymuno cyflwyno pobl ifanc i waith Amnest Rhyngwladol. Mae'n arbennig o berthnasol ar gyfer pobl ifanc mewn ysgolion yn y DU lle addysgir **Dinasyddiaeth, ABCh ac astudiaethau cymdeithasol**.

Cynlluniwyd y cyflwyniad i'w ddefnyddio gyda grŵp oedran **Cyfnod Allweddol 4/14+**. Os byddwch yn ei ddefnyddio gyda chynulleidfaoedd iau neu hŷn, gwnewch yn siwr bod y cynnwys, gan gynnwys y ffilmau, yn addas ac yn briodol i'r oedran.

Noder, dim ond 14 o sleidiau sydd. Mae'r sleidiau ychwanegol yn y Powerpoint hwn yn sleidiau trawsnewidiol.

Amlinelliad

Mae'r cyflwyniad yn cynnwys:

- Cyflwyniad
- Beth yw hawliau dynol?
- Pam mae Amnest Rhyngwladol yn bodoli?
- Ar ba fath o achosion unigol mae Amnest yn ymgychu?
- Ar ba fath o faterion hawliau dynol mae Amnest yn ymgychu?
- Pa fath o ddulliau ymgychu mae Amnest yn eu defnyddio?
- A yw ymgychu'n gweithio?
- Caiff hawliau dynol eu cam-drin bob dydd o hyd
- Sut gall pobl ifanc gymryd rhan mewn ymgychu dros hawliau dynol?

Defnyddio'r cyflwyniad

Mae'r cyflwyniad yn cymryd tua 15 munud i'w arddangos. Cewch chi ychwanegu neu ddileu sleidiau, ond chewch chi ddim golygu'r cynnwys (gweler y nodiadau).

Mae nodiadau'r cyflwyniad yn darparu sgript i gyd-fynd â'r sleidiau, yn ogystal â nodiadau sy'n rhoi manylion cefndirol byr a chyfeiriadau gwefannau lle gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth.

Mae croeso i chi roi'r wybodaeth yn y sgript yn eich geiriau eich hun.

Mae print bras yn dynodi cwestiynau awgrymedig i ofyn i'r disgyblion.

Dylai'r wybodaeth sy'n gynnwysedig fod yn ddilys yn y tymor hirach, ond mae pethau'n newid gydag amser. Gwiriwch ein gwefan i weld diweddariadau cyn dangos y cyflwyniad (gweler isod).

Mwy am Amnest Rhyngwladol

Ein hymgyrchoedd – www.amnesty.org.uk

Ein gwaith addysgol ar hawliau dynol – www.amnesty.org.uk/education



Cyflwyniad i Amnest Rhyngwladol **Sgript y cyflwyniad a nodiadau i siaradwyr**

CYFLWYNIAD

- Bore da/prynhawn da.
- Diolch yn fawr am fy ngwahodd i'ch ysgol / i gyfarfod eich grŵp ieuencid / i'ch prifysgol heddiw.
- Fy enw i ydy XXX ac rydw i'n un o 2.8 miliwn o bobl ledled y byd sy'n aelodau o sefydliad o'r enw Amnest Rhyngwladol.

[Cwestiwn dewiso!]

Codwch eich dwylo os ydych chi wedi clywed am Amnest Rhyngwladol o'r blaen.

Ydych chi'n gwybod beth mae Amnest yn ei wneud?

- Mae Amnest Rhyngwladol yn credu bod gan bawb hawliau penodol oherwydd ein bod yn ddynol. Mae'n ymgyrchu i sicrhau na chaiff hawliau pobl eu cam-drin, ac os cânt eu cam-drin, i sicrhau y gwneir rhywbeth yn ei gylch.
- GYDA'N GILYDD, RYDYM YN BWERUS.
- Hoffwn gymryd ychydig o amser heddiw i ddweud ychydig mwy am sut mae Amnest Rhyngwladol yn helpu pobl ledled y byd. A hoffwn ddweud wrthyh chi sut gallwch chi gymryd rhan.

[Cliciwch i'r gyfres nesaf o sleidiau]



Nodiadau i siaradwyr

Ffotograff: Gweithredwyr ieuencid a myfyrwyr yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol Amnest, Abertawe 2009

MAE GENNYM I GYD HAWLIAU OHERWYDD EIN BOD YN DDYNOL

- Mae cytundeb rhyfeddol rhwng gwahanol wledydd y byd. Ei enw yw'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol a chafodd ei ysgrifennu ar ôl erchyllterau'r Ail Ryfel Byd.
- Nod y datganiad hwn yw sicrhau bod pawb, beth bynnag yw eu hil, crefydd, rhyw neu unrhyw wahaniaeth arall, yn byw mewn rhyddid ac urddas.
- Nod y datganiad yw amddiffyn pobl rhag artaith, camdriniaeth ac anghyfiawnder drwy sefydlu hawliau sylfaenol.



Cyflwyniad i Amnest Rhyngwladol

Sgript y cyflwyniad a nodiadau i siaradwyr

MAE GENNYM I GYD HAWLIAU OHERWYDD EIN BOD YN DDYNOL parhad.

- Dyma rai o'r hawliau dynol mae'n eu cynnwys.
- Nid yw'r Datganiad Cyffredinol yn gyfraith, ond cafodd llawer o gyfreithiau eu creu o'i herwydd – ac mae wedi ysbrydoli gwaith sefydliadau megis Amnest.
- Yn anffodus, mae cam-drin hawliau dynol yn rhemp. Gwrthodir prawf teg i filoedd o bobl ledled y byd a rhoddir llawer yn y carchar oherwydd yr hyn maent yn ei feddwl neu'n ei gredu.
- Defnyddir y gosb eithaf o hyd ar gyfer rhai troseddau mewn mwy na 60 o wledydd.* Targedir sifiliaid mewn cyfnod o ryfel o hyd: gorfodir plant i ddod yn filwyr a chaiff menywod a merched eu treisio. Mae artaith yn digwydd o hyd mewn mwy na 100 o wledydd. Mae miliynau o bobl yn byw mewn tldi ar lai nag 1 doler y diwrnod.

[Cliciwch i'r gyfres nesaf o sleidiau]

Nodiadau i siaradwyr

* Hyd at ddiwedd 2009

Cyfraith hawliau dynol rhyngwladol: ers datblygu'r UDHR cafodd nifer o gyfreithiau hawliau dynol rhyngwladol (confensiynau) eu creu sydd â'r nod o amddiffyn hawliau penodol neu hawliau grwpiau penodol o bobl, ee
o Confensiwn y Cenhedloedd Unedig yn erbyn Artaith
o Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
o Confensiwn y Cenhedloedd Unedig dros Ddileu Pob Ffurf ar Wahaniaethu yn erbyn Menywod.

Y Cenhedloedd Unedig: ym 1945, ar ôl datgelu erchyllterau'r holocaust yn yr Ail Ryfel Byd, daeth arweinwyr o bob cwr o'r byd ynghyd i ffurfio'r Cenhedloedd Unedig. Mae'r Cenhedloedd Unedig yn sefydliad o wladwriaethau sydd â'r nod o atal gwrthdaro ledled y byd a hyrwyddo heddwch.

Mae genym i gyd hawliau oherwydd ein bod yn ddynol



Mae genym i gyd hawliau i fywyd, ac i fyw mewn rhyddid a ddiogelwch.

Mae genym i gyd hawliau oherwydd ein bod yn ddynol



Mae genym i gyd hawliau i fywyd, ac i fyw mewn rhyddid a ddiogelwch.
Nid oes gan unrhyw un yr hawl i'n troi na'n poenyddo.

Mae genym i gyd hawliau oherwydd ein bod yn ddynol



Mae genym i gyd hawliau i fywyd, ac i fyw mewn rhyddid a ddiogelwch.
Nid oes gan unrhyw un yr hawl i'n troi na'n poenyddo.
Mae genym i gyd hawliau i adilydd.

Mae genym i gyd hawliau oherwydd ein bod yn ddynol



Mae genym i gyd hawliau i fywyd, ac i fyw mewn rhyddid a ddiogelwch.
Nid oes gan unrhyw un yr hawl i'n troi na'n poenyddo.
Mae genym i gyd hawliau i adilydd.
Mae gan bobl yr hawl i safon bywyd sy'n ddigonol ar gyfer ...achyd a ieu.

CANNWYLL AMNEST

- Felly dyma pam mae Amnest yn bodoli: i sicrhau bod pawb yn mwynhau'r hawliau a osodwyd yn yr UDHR a rhoi terfyn ar gam-drin hawliau dynol ledled y byd.
- Efallai eich bod wedi sylwi ar symbol y gannwyll ar y sleidiau rydych chi wedi eu gweld hyd yn hyn. Dyma symbol Amnest Rhyngwladol.

Beth rydych chi'n meddwl yw ei hystyr?

[Awgrymiadau: beth mae'r gannwyll yn ei roi allan? Pam byddech chi'n defnyddio kannwyll? Pam mae'r weiren bigog wedi'i lapio o gwmpas y gannwyll? Beth mae weiren bigog yn ei gynrychioli i chi?]

[Ateb: Mae'r gannwyll yn cynrychioli golau a gobaith yn y tywyllwch, ac mae'r weiren bigog yn cynrychioli carchar ac erledigaeth.]

- Mae arwyddair Amnest yn dod o ddihareb hynafol Tsieineaidd: 'Mae'n well cynnu un gannwyll na mellithio'r tywyllwch.'

Beth rydych chi'n meddwl bod hynny'n ei feddwl?

[Ateb: Hyd yn oed pan mae'n ymddangos bod llawer o broblemau i'w datrys, mae'n well gwneud rhywbeth na chwyno amdano.]

- Yn awr byddaf yn dweud wrthyf am ddau o'r unigolion mae aelodau Amnest wedi cymryd camau gweithredu drostynt.

[Cliciwch i'r gyfres nesaf o sleidiau]



Cyflwyniad i Amnest Rhyngwladol

Sgript y cyflwyniad a nodiadau i siaradwyr

IGNATIUS MAHENDRA KUSUMA WARDHANA

- Yn Indonesia yn 2003, cafwyd arweinydd myfyrwyr o'r enw Mahendra,* a oedd yn 21 oed bryd hynny, yn euog o 'sarhau'r Arlywydd neu'r Is-arlywydd' ar ôl cymryd rhan mewn gwrthdystiad heddychlon yn erbyn cynnydd mewn prisiau tanwydd.
- Cafodd ei ddedfrydu i garchar am dair blynedd.
- Ystyriodd Amnest Rhyngwladol fod Mahendra yn garcharor cydwybod. Mae carcharorion cydwybod yn bobl nad ydynt wedi defnyddio trais neu alw ar bobl eraill i ddefnyddio trais, ac sy'n cael eu carcharu am yr hyn maent yn ei gredu, am rywbeth maent yn ei ddweud, neu am bwy ydynt.
- Anfonodd pobl ifanc o ysgolion a phrifysgolion, ac aelodau grwpiau lleol ac eraill ledled y DU gardiau cyfarch at Mahendra pan roedd yn y carchar. Roedd yn rhan o ymgyrch flynyddol gan Amnest pan fydd pobl yn anfon cyfarchiad cyfeillgar neu neges o gydsafiad at rywun sydd mewn perygl neu sydd wedi'i garcharu'n anghyfiawn.
- Bu Mahendra wastad yn weithredydd dewr, cryf.
- Pan welodd y gefnogaeth a oedd ganddo drwy'r cardiau cyfarch, a sylwi bod y gwarchodwyr yn ei drin yn fwy gofalus, roedd yn teimlo'n ddigon dewr i ddechrau ymgyrchu o fewn y carchar.
- Dechreuodd ddeiseb ymhlith y carcharorion ar gyfer mynediad am ddim at ddŵr glân – yr oedd yn rhaid iddynt dalu amdano o'r blaen. Llwyddodd ei ymgyrch.
- Mae e'n dwed bod y cardiau'n bwysig oherwydd ei fod yn gwybod nad troseddwr oedd, ac roedd yn bwysig iddo fe bod pobl eraill yn credu hynny hefyd.
- Pan roedd yn y carchar, ysgrifennodd Mahendra at bobl eraill hefyd a ymddangosodd yn ymgyrch cardiau cyfarch y flwyddyn honno.

[Cliciwch i'r gyfres nesaf o sleidiau]

Nodiadau i siaradwyr

* Mae Ignatius Mahendra Kusuma Wardhana yn cyfeirio at ei hun fel Mahendra, a yngenir Ma-HEN-dra

Rhyddid mynegiant: gweler Erthygl 19 yr UDHR

Mwy am Mahendra: www.amnesty.org – chwilio am: Mahendra

Mae **cydsafiad** yn golygu sefyll dros bobl eraill oherwydd ein bod yn cydnabod bod gennym rywbeth mewn cyffredin â nhw.



Cyflwyniad i Amnest Rhyngwladol

Sgript y cyflwyniad a nodiadau i siaradwyr

SERKALEM FASIL

- Cafodd y newyddiadurwraig a'r cyhoeddwr Serkalem Fasil ei harestio yn Ethiopia yn 2005. Roedd yn feichiog ar y pryd.
- Cafodd ei chyhuddo o fradwriaeth ar ôl cyhoeddi erthyglau a oedd yn beirniadu'r llywodraeth.
- Pe bai hi wedi'i chael yn euog byddai hi wedi wynebu'r gosb eithaf.

[Arhoswch nes bod y cysylltiad ffilm yn ymddangos]

- Yn y ffilm hon, mae Serkalem yn esbonio yn ei geiriau ei hun yr hyn a ddigwyddodd iddi ar ôl iddi gael ei harestio. Mae actores yn chwarae rhan Serkalem, ond ei llais hi ei hun yw.

[Dangoswch y clip ffilm]

- Dywedaf wrthyfch ar ddiwedd y cyflwyniad hwn yr hyn a ddigwyddodd i Mahendra a Serkalem.

[Cliciwch i'r sleid nesaf]

Nodiadau i siaradwyr

Ynganiad: Sirk-a-lem Fass-il

Clip ffilm: Mae'r clip yn para am 1 munud 20 eiliad. Gwnewch yn siwr ei fod yn briodol ar gyfer eich cynulleidfia.

Artaith: Gweler Erthygl 5 yr UDHR

Mwy am Serkalem:

www.amnesty.org/en/library/info/AFR25/010/2007/en



TLODI A HAWLIAU DYNOL

- Yn ogystal ag ymgyrchu dros hawliau unigolion, mae Amnest hefyd yn cynnal ymgyrchoedd rhyngwladol ar faterion sy'n effeithio ar filiynau o bobl – er enghraifft, tloidi a hawliau dynol.
- Mae miliynau o bobl yn Nelta'r Niger yn Affrica wedi cael eu bywydau a'u bywoliaethau wedi'u dinistrio gan echdynnu olew, a'r cwmni olew â'r rhan fwyaf yn yr ardal yw Shell.
- Mae llygredd dŵr wedi lladd y pysgod.
- Mae llygredd y tir wedi ei wneud yn amhosibl tyfu cnydau.
- A heddiw mae 75 y cant o boblogaeth wledig yr ardal heb fynediad at ddŵr glân.
- Mae gan bob cwmni gyfrifoldeb dros barchu hawliau dynol yn eu gweithrediadau.
- Mae Shell wedi methu â chwrdd â'i ymrwymiad i lanhau ei lygredd; mae hyd yn oed wedi methu â chwrdd â'i egwyddorion busnes ei hun.
- Bu pobl ifanc o gwmpas y DU yn ysgrifennu ac yn anfon negeseuon e-bost at Swyddog Prif Weithredol Shell.

GYDA'N GILYDD RYDYM YN BWERUS

[Cliciwch i'r sleid nesaf]

Nodiadau i siaradwyr

Yr hawl i safon fyw ddigonol: gweler UDHR erthygl: 25

Diweddariadau: www.amnesty.org.uk/shell



Cyflwyniad i Amnest Rhyngwladol

Sgript y cyflwyniad a nodiadau i siaradwyr

CARCHARU ANGHYFREITHLON AC ARTAITH

- Mae Amnest yn credu pryd bynnag y cyhuddir pobl o drosedd dylent gael prawf teg.
- Nid yw hyn yn digwydd bob tro, er enghraifft yn achos y bobl a gedwir yn safle milwrol yr UD ym Mae Guantánamo, Cuba.
- Ers 2001, mae awdurdodau'r UD wedi cadw mwy na 700 o bobl y maent yn eu drwgdybio o weithgareddau terfysgol yn anghyfreithlon, gan eu dal ym Mae Guantánamo.
- Mae eu cadw'n anghyfreithlon o dan gyfraith ryngwladol oherwydd ni roddwyd profion teg iddynt.
- Mae llawer o bobl wedi cael eu rhyddhau o Fae Guantánamo heb eu cyhuddo, ond mae ychydig dan 200 yno o hyd.*
- Mae'r ffotograff bach yn dangos Shaker Aamer, preswlydd y DU a ddelir ar hyn o bryd* ym Mae Guantánamo. Mae ei wraig a'i blant yn byw yn y DU. Ni chafodd ei gyhuddo erioed o unrhyw drosedd.
- Bu aelodau o Amnest yn ymgyrchu dros Shaker Aamer ac yn gofyn i lywodraeth y DU ymyrryd ar ei ran.

[Cliciwch i'r sleid nesaf]

Nodiadau i siaradwyr

* Ers Ebrill 2010

Ffotograff: Gwarchodwyr yn hebrwng carcharor ym Mae Guantánamo.

Diweddariadau: www.amnesty.org.uk/terror

Carcharu ac artaith: gweler erthyglau'r UDHR: 3, 5, 6, 9, 10



YMGYRCHU DROS HAWLIAU DYNOL

- Mae aelodau a chefnogwyr Amnest fel fi yn gweithio i amddiffyn hawliau dynol mewn nifer o wahanol ffyrdd. Rydym yn:
- Ysgrifennu llythyrau ac yn anfon negeseuon e-bost a chardiau er mwyn cefnogi unigolion sydd mewn perygl neu yn y carchar
- Ysgrifennu llythyrau ac yn anfon deisebau at lywodraethau a sefydliadau er mwyn galw am newid
- Defnyddio FaceBook, Twitter a blogiau er mwyn annog pobl i gymryd camau gweithredu
- Ysgrifennu llythyrau at bapurau newydd ac yn cynhyrchu ffilmiau er mwyn codi ymwybyddiaeth ac annog camau gweithredu
- Defnyddio gwrthdystiadau a phrotestiadau er mwyn codi ymwybyddiaeth.
- Caiff unrhyw un gymryd rhan yn ymgyrchoedd Amnest Rhyngwladol.
- Mae rhai o gefnogwyr mwy enwog Amnest yn helpu trwy siarad am Amnest â'r cyfryngau a chymryd rhan mewn digwyddiadau Amnest megis gigs comedi, cyngherddau a sgysiau cyhoeddus. Yn y gorffennol maent wedi cynnwys David Tennant (Doctor Who blaenorol), Keira Knightley ac Avril Lavigne i enwi ond ychydig ohonynt.
- Drwy lyfrau, ffilmiau, cylchgronau, deunyddiau addysgol, adnoddau ar gyfer ysgolion a sgysiau prifysgol, mae Amnest yn ceisio codi ymwybyddiaeth ac annog pobl sy'n debyg i ni i gymryd camau gweithredu.

[Cliciwch i'r sleid nesaf]

Nodiadau i siaradwyr

Ffotograff: Aelodau o grŵp Amnest Coleg Freman, Buntingford, yn ymgyrchu dros hawliau dynol



Cyflwyniad i Amnest Rhyngwladol

Sgript y cyflwyniad a nodiadau i siaradwyr

YDY AMNEST YN GWEITHIO?

- Ydy, mae ymgyrchoedd Amnest wir yn gweithio! Mewn llawer o'r achosion mae Amnest yn gweithio arnynt, ceir rhywfaint o welliant: rhoddir terfyn ar arteithio, caiff carcharor a garcharwyd yn annheg ei ryddhau.
- Yn aml mae'n anodd gwybod pa wahaniaeth yn union mae ymgyrchu wedi'i wneud, oherwydd bod cymaint o bethau eraill sy'n dylanwadu ar benderfyniadau. Ond weithiau byddwn yn clywed bod ein camau gweithredu wedi cael effaith uniongyrchol, ac rydym yn dathlu'r cyfnodau hyn.
- Ydych chi'n cofio Mahendra a Serkalem y soniais amdanynt yn gynharach? Dyma beth ddigwyddodd iddynt:

(Mahendra)

- Yn ogystal ag anfon cardiau cyfarch at Mahendra, ysgrifennodd cefnogwyr Amnest at lywodraeth Indonesia i ofyn iddynt ei ryddhau.
- O'r diwedd cafodd Mahendra ei ryddhau ym mis Awst 2005 ar ôl cael ei garcharu am ddwy flynedd a hanner.
- Pan gafodd ei ryddhau dywedodd wrth Amnest fod yr amgylchiadau a'r bwyd yn ofnadwy, ond hefyd fod y carchar yn 'lle unig iawn'. Dywedodd fod y llythyrau a dderbyniodd yn gysur mawr: 'Roeddem yn gwybod, o'r llythyrau, bod llawer o bobl yn ein cefnogi ac nad oeddent wedi anghofio amdanom.'
- Ar ôl i Mahendra gael ei ryddhau cafwyd newid cofiadwy yng Nghod Troseddol Indonesia ym mis Rhagfyr 2006. Pleidleisiodd y Llys Cyfansoddiadol dros newid y rhan o'r gyfraith y cafodd Mahendra ei garcharu oddi tano. Felly nid yw 'sarhau'r Arlywydd neu'r Is-lywydd' yn drosedd bellach.

[Cliciwch i'r sleid nesaf]

(Serkalem Fasil)

- Anfonodd aelodau Amnest apeliadau am gamau gweithredu ar frys a negeseuon e-bost at swyddogion y llywodraeth yn gofyn am ryddhau Serkalem.
- Cafodd Serkalem ei rhyddhau o'r carchar yn 2007 ar ôl i'r barnwr ddyfarnu nad oedd ganddi achos i'w ateb.
- Mae ei mab, a aned tra ei bod yn y carchar, yn ddiogel ac yn iach.
- Cafodd Amnest lwyddiant hefyd gyda'i ymgyrchoedd byd-eang.

[Cliciwch i'r sleid nesaf]



Nodiadau i siaradwyr

Mwy am Mahendra: www.amnesty.org.uk/success neu www.amnesty.org – chwilio am: Mahendra

Mwy am Serkalem Fasil:

www.amnesty.org/en/library/info/AFR25/010/2007/en

Cyflwyniad i Amnest Rhyngwladol

Sgript y cyflwyniad a nodiadau i siaradwyr

LLWYDDIANT YMGYRCHOEDD

- Bob blwyddyn, mae miliynau o bobl yn dioddef ac yn marw oherwydd y fasnach arfau anghyfrifol fyd-eang.
- Ar hyn o bryd nid oes cytundeb byd-eang i reoleiddio'r fasnach mewn arfau confensiynol.
- Yn 2003 ymunodd Amnest Rhyngwladol â dau sefydliad arall – Oxfam a'r Rhwydwaith Gweithredu Rhyngwladol ar Arfau Bychain – er mwyn ymgyrchu dros Gytundeb Masnach Arfau rhyngwladol i reoli'r fasnach farwol hon. Galwon nhw yr ymgyrch Rheoli Arfau arno.
- Yn 2006, pleidleisiodd 153 o lywodraethau'n llethol yn y Cenhedloedd Unedig dros ddatblygu Cytundeb Masnach Arfau.
- Yn 2009, cytunodd llywodraethau yn y Cenhedloedd Unedig ar amserlen i sefydlu'r cytundeb.
- Mae masnachwyr arfau mwyaf y byd – gan gynnwys yr UDA, DU, Ffrainc a'r Almaen - erbyn hyn yn cefnogi proses hon y Cenhedloedd Unedig.
- Ym mis Mehefin 2009, gwahoddwyd 150 o weithredwyr ieuenctid a myfyrwyr Amnest i'r Swyddfa Dramor i drafod cam hanfodol nesaf yr ymgyrch Rheoli Arfau (gweler y ffotograff).
- Rydyn ni wedi cael llawer o lwyddiant – ond mae llawer o waith i'w wneud o hyd.

GYDA'N GILYDD, RYDYM YN BWERUS.

[Cliciwch i'r gyfres nesaf o sleidiau]

Nodiadau i siaradwyr

Diweddariadau: www.amnesty.org.uk/controlarms



CAIFF HAWLIAU DYNOL EU CAM-DRIN O HYD BOB DYDD

- Er enghraifft, dyma ffotograff o Patrick Okoroafor yn fachgen.
- Cafodd Patrick ei arestio yn 1995 pan roedd yn 14 oed ac, ar ôl cael prawf annheg, cafodd ei euogfarnu o ladrata.

[Arhoswch nes y bydd Patrick fel dyn hŷn yn ymddangos]

- Dyma lun diweddar o Patrick. Erbyn iddo gael ei ryddhau o'r carchar, bydd e wedi treulio cyfanswm o 24 o flynyddoedd dan glo am drosedd mae e'n dweud ei fod heb ei chyflawni.
- Cafodd Patrick ei arteithio ar ôl cael ei arestio. Yn ôl ei frawd, defnyddiodd yr heddlu bleiers i dynnu ei ddannedd a chafodd ei glymu i fyny a'i fwrw.

[Cliciwch i'r gyfres nesaf o sleidiau]

Nodiadau i siaradwyr

Ynganiad: Patrick O-ko-row-afor

Diweddariadau: www.amnesty.co.uk/okoroafor

Carcharu a phrawf teg: UDHR erthyglau 5, 6, 9, 10, 11



Cyflwyniad i Amnest Rhyngwladol

Sgript y cyflwyniad a nodiadau i siaradwyr

GYDA'N GILYDD RYDYM YN BWERUS

- Ym mis Mehefin 2009, protestiodd cefnogwyr Amnest o nifer o wahanol ysgolion ledled y DU y tu allan i lysgenhadaeth Nigeria yn Llundain er mwyn mynnu bod Patrick yn cael ei ryddhau.
- Mae Amnest yn gobeithio y bydd ei ymgyrchu ar ran Patrick yn arwain at ei ryddhau o'r carchar.

GYDA'N GILYDD RYDYM YN BWERUS

[Cliciwch i'r sleid nesaf]

Gyda'n gilydd, rydym yn bwerus!



Gyda'n gilydd, rydym yn bwerus!



SUT GALLWCH CHI GYMRYD RHAN?

- Mae llawer o ffyrdd y gallwn ni i gyd gymryd rhan gydag Amnest.
- Cewch chi gymryd camau gweithredu naill ai fel unigolyn neu fel rhan o grŵp.
- Os ewch chi at wefan Amnest, byddwch chi'n gweld yr achosion o gam-drin hawliau dynol rydym yn gweithio arnynt ar hyn o bryd, a sut gallwch chi ysgrifennu llythyrau ymgyrchu ar ran y bobl sy'n dioddef cam-drin hawliau dynol.
- Gallwch chi hefyd weithredu mewn grŵp ieuenctid neu fyfyrwyr.

Oes gyda chi grŵp ieuenctid/myfyrwyr yn eich ysgol/prifysgol?

- Os nad oes un, gallech chi ddechrau un. Y cyfan sydd eisiau yw grŵp bach o bobl â diddordeb.
- Mae grwpiau ieuenctid a myfyrwyr Amnest yn cymryd rhan mewn ymgyrchoedd drwy:
 - o Drefnu amrywiaeth eang o ddigwyddiadau codi ymwybyddiaeth sy'n greadigol ac yn hwyliog
 - o Trefnu protest fel yn y ffotograff
 - o Codi arian
 - o Ysgrifennu llythyrau at swyddogion y gyfraith
 - o Anfon negeseuon cefnogol at bobl y mae eu hawliau'n cael eu cam-drin
 - o Cynnal gwasanaethau ysgol
 - o Gwneud ffilmiau
 - o Cael sylw'r wasg leol

Sut gallwch chi gymryd rhan?



Cyflwyniad i Amnest Rhyngwladol

Sgript y cyflwyniad a nodiadau i siaradwyr

SUT GALLWCH CHI GYMRYD RHAN? parhad

[Arhoswch nes bod cyfeiriadau'r we yn ymddangos]

- Mae mwy na 600 o grwpiau ieuenctid Amnest ledled y DU a mwy na 100 o grwpiau prifysgol.
- Os ydych chi wedi cael eich ysbrydoli gan unrhyw un o'r bobl rydw i wedi sôn amdanynt heddiw, ewch i wefan Amnest neu siaradwch â fi ar y diwedd ynghylch sut gallwch chi gymryd rhan.
- Hoffwn i orffen gyda chlip o ffilm fer. Wnewch chi ofyn unrhyw gwestiynau sydd gyda chi ar y diwedd.
- A chofiwch, RYDYCH CHI'N BWERUS. Diolch yn fawr am eich sylw.



Nodiadau i siaradwyr

Camau gweithredu'r ieuenctid a dechrau grŵp ieuenctid Amnest:

www.amnesty.org.uk/youth

Camau gweithredu myfyrwyr a dechrau grŵp myfyrwyr Amnest:

www.amnesty.org.uk/student

Camau gweithredu: www.amnesty.org.uk/actions

Y ffotograffau: Myfyrwyr Prifysgol yng Nghynhadledd Myfyrwyr Amnest 2009 a'r gwrthdystiad Shell yn Llundain.

Clipiau ffilm: *You are Powerful* (yn dangos pŵer cydsafiad, a wnaed gan Amnest Rhyngwladol y DU, 1 munud 35 eiliad). *Signatures* (animeiddiad yn dangos pŵer ysgrifennu llythyrau a deisebau, a wnaed gan Amnest Rhyngwladol Ffrainc, 2 funud 19 eiliad).